EICH
CYMDEITHAS CHI

2019

Adolygiad o'r Flwyddyn

Crynodeb o Ddatganiad Ariannol 2019

Cwrdd â'ch Cyfarwyddwyr

Hysbysiad o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Adeiladu eich dyfodol

Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu

Lle mae cartref yn bwysig
www.principality.co.uk

Prif Uchafbwyntiau 2019

Cefnogi dros 4,900

o brynwyr tro cyntaf i gamu ar yr ysgol dai

Balansau cynilo gan Aelodau o dros

(2018: £6.9bn)

Codi £156,000 i'n dwy elusen bartner newydd

Twf morgeisi manwerthu net o

(2018: £718.7m)

£39.8 miliwn

(2018: £43.8m)

Sgôr hyrwyddwr gwasanaeth cwsmeriaid net o



(2018: 78.6%)

Sgôr ymgysylltu â gweithwyr o

77%

(2018: 76%)

Cymarebau cyfalaf cryf â chymhareb Ecwiti Cyffredin Haen 1 o

26.20%

(2018: 27.06%)

Elw cyn treth o

£39.6 miliwn

(2018: £40.7m)

Mae'r mesurau uchod, ac eithrio Elw Cyn Treth, yn Fesurau Perfformiad Amgen.
Mae rhagor o wybodaeth am y Mesurau hyn ar gael yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon, a cheir diffiniadau yn y rhestr termau.

Croeso

06

Adolygiad y Prif Weithredwr o'r Flwyddyn

28

Cwrdd â'ch Bwrdd y Cyfarwyddwyr

33

Hysbysiad o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Adolygiad o'r Flwyddyn a Chrynodeb o Ddatganiad Ariannol 2019

Adolygiad y Cadeirydd o'r Flwyddyn 3

Adolygiad y Prif Weithredwr o'r Flwyddyn 6

Cefnogi ein Haelodau a'n Cymunedau 9

Crynodeb o'r Datganiad Ariannol 12

Datganiad yr Archwilwyr Annibynnol 16

Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth 17

Cwrdd â'ch Cyfarwyddwyr 28

Hysbysiad o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 33

Adolygiad y Cadeirydd o'r Flwyddyn

Perfformiad

Mae 2019 wedi bod yn flwyddyn brysur i'r DU ac mae ansicrwydd Brexit wedi dominyddu'r dirwedd wleidyddol ac economaidd. Mae canlyniad etholiad cyffredinol mis Rhagfyr wedi dileu llawer o'r ansicrwydd hwnnw bellach wrth i ni baratoi i adael yr UE. Rwy'n falch o adrodd ein bod wedi sicrhau cyfres gref o ganlyniadau yn 2019, gan barhau i ddarparu cartref diogel ar gyfer cynilion yr Aelodau a'u helpu i gael y cartref y maent yn dymuno ei gael. Mae ein hasedau wedi cynyddu i dros £10 biliwn am y tro cyntaf ac rydym wedi cofnodi blwyddyn gadarn arall o elw sydd wedi cryfhau ein cyfalaf yn fwy i fuddsoddi yn nyfodol hirdymor y Gymdeithas. Mae'r Bwrdd a minnau yn falch ein bod wedi helpu dros 4,900 o brynwyr tro cyntaf i gamu ar yr ysgol eiddo yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Canolbwyntiwyd yn benodol eleni ar wella ein technoleg. Rydym wedi gwneud cynnydd cyson o ran y newidiadau technolegol sydd eu hangen i alluogi'r Principality i barhau i dyfu a denu cenhedlaeth newydd o Aelodau a chwsmeriaid. Ni fydd ein technoleg yn newid pwy ydym ni yn y bôn na'r hyn yr ydym yn ei wneud – ond eisoes mae'r newidiadau a wnaed wedi ein helpu i ddarparu gwasanaeth morgais cyflymach a mwy effeithlon i froceriaid ac Aelodau. Maes o law, byddwn yn gallu cynnig mwy o gynhyrchion cynilo i Aelodau sy'n dewis eu defnyddio ar-lein. Ni fydd hynny'n ein hatal rhag cynnal ein presenoldeb ar y stryd fawr trwy ein canghennau ledled Cymru a'r Gororau.

Yn y llun: Laurence Philip Adams, Cadeirydd

Risg

Mae natur a chyflymdra newidiadau technolegol yn cyflwyno risg i gydnerthedd parhaus y sector gwasanaethau ariannol. Mae ein gallu i gynnal a pharhau i ddatblygu cydnerthedd gweithredu a galluoedd rheoli risg gweithredu yn hollbwysig i sicrhau y gallwn barhau i ddarparu gwasanaeth diogel, sefydlog a chystadleuol i'n Haelodau.

Mae'r Bwrdd a Phwyllgor Risg y Bwrdd yn cynnal goruchwyliaeth reolaidd o gyflawniad y rhaglen ac effeithiolrwydd parhaus y gallu i reoli risg gweithredu ar lefel busnes a rheolaethau cysylltiedig.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r risgiau hirdymor posibl y mae newid hinsawdd yn eu cyflwyno i'n model busnes ac i'r economi ehangach. Mae ein fframwaith profi straen

yn cynnwys asesu risgiau ariannol sy'n deillio o newid hinsawdd ac yn ystyried risgiau perthnasol presennol yn ogystal â'r rhai a all godi yn y dyfodol. Byddwn yn mynd ati'n strategol i reoli'r risgiau ariannol sy'n deillio o newid hinsawdd ar sail canlyniad yr asesiadau a gynhelir.

Cefnogi ein cymunedau a'n Haelodau

Mae ein gwaith addysg ariannol wedi bod yn rhagorol unwaith eto gan ein bod wedi helpu i addysgu mwy nag 11,000 o bobl ifanc ynghylch rheoli eu harian. Mewn arolwg diweddar o aelodau Senedd Ieuenctid Cymru, tynnwyd sylw at y ffaith y dylai ysgolion ddysgu mwy o sgiliau bywyd i helpu pobl ifanc cyn iddynt adael.

Mae ein cydweithwyr o bob rhan o'n rhwydwaith o ganghennau wedi gwneud cymaint i addysgu mwy na 2,000 o blant ysgol gynradd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a byddwn yn parhau i ddwysáu ein hymdrechion i feithrin sgiliau bywyd pwysig ein pobl ifanc.

Mae'r Bwrdd yn hynod falch hefyd o'r gwaith y mae ein cydweithwyr wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn i helpu grwpiau o bobl agored i niwed ledled Cymru. Mae ein cydweithwyr wedi ennill gwobrau cenedlaethol uchel iawn eu proffil, megis Cymdeithas Adeiladu Ranbarthol Orau y Mortgage Finance Gazette, am ddarparu gwasanaeth gwych i'n Haelodau ac am gefnogi ein cymunedau.

Mae ein cydweithwyr hefyd wedi codi £156,000 ar gyfer ein dwy elusen bartner, sef Alzheimer's Society Cymru a Teenage Cancer Trust Cymru, yn ystod blwyddyn gyntaf ein partneriaeth tair blynedd. Fel Bwrdd, rydym bob amser yn falch o weld cydweithwyr yn gwneud gwahaniaeth i'r bobl y mae angen ein cymorth arnynt fwyaf.

Yn y llun: Ysgol Prestatyn yn defnyddio gêm bwrdd y Principality, Defaid ac Ysgolion, fel offer addysg ariannol

Yn y llun: Cydweithiwr y Principality yn sgwrsio ag Aelod yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y llynedd

Llywodraethu

Mae'r Principality yn sefydliad sy'n eiddo i'w Aelodau. Felly, rydym yn croesawu'n arbennig adborth gan ein holl Aelodau, boed hynny drwy ein canghennau, dros y ffôn, drwy e-bost, llythyr, mewn cyfarfodydd fforwm aelodau, neu yn y cyfarfod cyffredinol blynyddol. Rydym yn canolbwyntio'n fawr ar sicrhau bod gennym ddirnadaeth dda o agweddau allweddol ar ein busnes a'r safonau llywodraethu uchaf sy'n adlewyrchu buddiannau'r holl randdeiliaid.

Bu rhai newidiadau i'r Bwrdd eleni. Rydym yn ffarwelio â Steve Hughes a ymddiswyddodd fel Prif Weithredwr ym mis Rhagfyr i fanteisio ar gyfle o swydd rhywle arall. Penodwyd ein Prif Swyddog Risg, Mike Jones, yn unfrydol gan y Bwrdd fel Prif Weithredwr dros dro yn ei le. Mae gan Mike fwy na 40 mlynedd o brofiad ym maes gwasanaethau ariannol ac mae wedi bod gyda'r Principality am fwy nag 20 mlynedd. Mae hefyd wedi bod yn aelod o'r Bwrdd am y chwe blynedd diwethaf.

Er ei bod yn ddrwg gen i weld Steve Hughes yn gadael, rwyf hefyd yn ddiolchgar am bopeth y mae wedi ei gyfrannu at ein sefydliad. Yn benodol, mae'n gadael Tîm Gweithredol cryf ar waith a fydd yn parhau â gwaith rhagorol y blynyddoedd diwethaf.

Rydym bob amser yn ceisio cryfhau ein galluoedd fel Bwrdd i fynd i'r afael â'r heriau sydd o'n blaen, ac o gofio hynny, fe wnaethom groesawu Dr Debra Evans-Williams yn Gyfarwyddwr Anweithredol yn yr haf. Mae gan Debra dros 16 mlynedd o brofiad ar lefel y bwrdd, a bydd yn cynghori'r Gymdeithas wrth i ni barhau â'n gweddnewid digidol. Bydd ei gwybodaeth a'i phrofiad helaeth o dechnoleg ariannol yn werthfawr iawn wrth i ni geisio gwella'r cynhyrchion a'r gwasanaethau yr ydym yn eu cynnig i'n Haelodau.

Rwyf wrth fy modd bod ein Prif Swyddog Gweithredu Iain Mansfield wedi ymuno â'n Bwrdd hefyd. Rydym yn credu'n gryf mewn meithrin a datblygu ein cydweithwyr ar bob lefel. Mae Iain yn aelod gwerthfawr o'n Tîm Gweithredol ac mae ganddo brofiad gwych ym mhob rhan o'r busnes, yn fwyaf nodedig ei arweinyddiaeth wrth gyflwyno technoleg a newid agweddau cysylltiedig ar fusnes y Gymdeithas. Bydd ei waith yn helpu i ddarparu gwell gwasanaethau cwsmeriaid i'n Haelodau yn y tymor hir.

Diolch yn fawr

Ar ran y Bwrdd hoffwn ddiolch i'n cydweithwyr bendigedig am eu cyfraniad parhaus at flwyddyn lwyddiannus arall. Rwy'n ffodus fel Cadeirydd i gwrdd â chynifer o'n pobl ymroddgar, broffesiynol a brwdfrydig a gwn o'r cyfarfodydd hyn fod y Gymdeithas mewn dwylo rhagorol. Ni fyddai ein Cymdeithas yn llwyddiannus heb ein cydweithwyr ymroddedig yn ein canghennau, ein hasiantaethau a'n prif swyddfa sydd â chysylltiad aruthrol â'u cymunedau.

Yn olaf, ni fyddem yn llwyddiannus heb eich cefnogaeth chi, ein Haelodau ffyddlon. Hoffwn ddiolch i bob un ohonoch am barhau i ddewis y Principality.

Laurence Philip Adams
Cadeirydd
5 Chwefror 2020

Adolygiad y Prif Weithredwr o'r Flwyddyn

Mae Cymdeithas Adeiladu'r Principality wedi cyflawni perfformiad cryf yn 2019. Rydym wedi cynnal ein strategaeth dwf er gwaethaf marchnad anodd, ac wedi buddsoddi mewn uwchraddio gwasanaethau ar gyfer ein Haelodau hefyd. Unwaith eto, rydym wedi helpu pobl ledled Cymru a'r Gororau i ffynnu.

Perfformiad

Rwy'n falch iawn o'n perfformiad a'r gwasanaeth rhagorol yr ydym yn parhau i'w ddarparu i'n Haelodau.

£499 miliwn oedd ein benthyciadau morgeisi manwerthu net yn ystod y flwyddyn (2018: £719 miliwn), gan helpu cyfanswm ein hasedau i fynd dros £10 biliwn am y tro cyntaf yn ein hanes sef £10.7 biliwn (2018: £9.7 biliwn). Mae hyn yn llwyddiant ysgubol ac yn dyst i waith caled ein cydweithwyr dros flynyddoedd lawer.

Er mwyn cefnogi'r twf yn ein benthyciadau rydym wedi denu £596 miliwn o gynilion ychwanegol. Mae ein cynhyrchion cystadleuol wedi cynnal ein lle fel un o'r goreuon ar y stryd fawr. Fe wnaethom ddarparu cyfradd gyfartalog o 1.18% i gynilwyr o'i chymharu â chyfartaledd y farchnad o 0.74%[1] yn ystod yr un cyfnod. Fe wnaethom godi cyllid cyfanwerthu hefyd trwy ddau ddyroddiad sicrwydd wedi'u cefnogi gan forgeisi preswyl.

Mae cydbwyso anghenion cynilwyr wrth barhau i fod yn gystadleuol yn y farchnad forgeisi yn bwyslais cyson. Mae'r cyfraddau cynilo y gallwn eu cynnig i Aelodau yn dibynnu ar y llog yr ydym yn ei ennill ar forgeisi. Mae ansicrwydd economaidd a

Yn y llun: R. Michael Jones, Prif Weithredwr Dros Dro

gwleidyddol wedi arwain at lai o weithgarwch yn y farchnad dai. Ynghyd â chystadleuaeth ddwys yn y farchnad, mae wedi arwain at bwysau tuag i lawr ar faint yr elw.

Fel cymdeithas adeiladu sy'n eiddo i'n Haelodau, nid ydym o dan bwysau i ddiwallu anghenion tymor byr cyfranddalwyr. Nid sicrhau'r elw mwyaf yw ein nod ond canolbwyntio ar ddyfodol hirdymor y Gymdeithas. Roedd yr elw sylfaenol cyn treth yn unol â'n disgwyliadau sef £39.8 miliwn (£43.8 miliwn yn 2018). Yr elw statudol cyn treth oedd £39.6 miliwn (2018: £40.7 miliwn).

[1] Ffynhonnell: CSDB CACI, cyfraddau llog cyfartalog y DU wedi'u pwysoli ar gyfer stoc cyfradd sefydlog ac amrywiol, Ionawr – Hydref 2019 (y data diweddaraf sydd ar gael).

Yn y llun: Aelod o staff yn cyflwyno addysg ariannol i ddisgyblion ysgol gynradd

Yn y llun: Mae Principality Masnachol yn ariannu datblygiad tai yn Sir Benfro

Mae ein sylfaen gyfalaf gadarn, a gefnogir gan ein model busnes risg isel, yn ein caniatáu i fod â golwg hirdymor wrth fuddsoddi yn y busnes. Rydym yn gartref saff a diogel i gynilion ein Haelodau. Mae hyn yn hanfodol i'n llwyddiant parhaus, a byddwn yn parhau i gynyddu graddfa, er mwyn darparu cryfder a diogelwch ar gyfer y dyfodol.

Mae ein tîm Masnachol unwaith eto wedi cyfrannu'n eithriadol at ein cymunedau. Mae hyn wedi cynnwys sicrhau bod £50 miliwn ar gael mewn benthyciadau i helpu cwmnïau llai o ddatblygwyr tai i adeiladu cartrefi ledled Cymru. Mae hefyd wedi rhoi £75 miliwn i gymdeithasau tai gefnogi'r broses o greu tai fforddiadwy. Mae eu hymdrechion wedi helpu i gefnogi Agenda Tai Cymru.

Newidiadau ar gyfer y dyfodol

Mae gennym strategaeth dwf uchelgeisiol â phwyslais clir ar weddnewid ein busnes morgeisi a chynilion. Rydym ar ganol gwaith gwella a fydd yn helpu i ddarparu ffyrdd hyblyg i Aelodau'r presennol a'r dyfodol reoli eu hanghenion. Mae ein perfformiad cryf a'n proffidioldeb yn cefnogi'r buddsoddiad sylweddol hwn yn ein technoleg, ein canghennau a'n pobl.

Rydym wedi symleiddio ein llwybr morgeisi ar gyfer broceriaid, cwsmeriaid a chydweithwyr. Mae'n golygu amseroedd cynnig cyflymach a phrofiad gwasanaeth llawer gwell. Mae ein cynlluniau i ddarparu cyfrwng cynilo newydd yn mynd rhagddynt yn dda a byddant yn gwella ein gwasanaeth ar-lein.

Mae hwn yn gyfnod heriol ond cyffrous yn hanes y Principality. Ein pwyslais yw sicrhau dyfodol y busnes ar gyfer ein cenhedlaeth nesaf o gynilwyr a benthycwyr.

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i'r stryd fawr. Wrth i ganghennau banc ar y stryd fawr yng Nghymru barhau i gau, mae ein presenoldeb ni yn gryf gyda 70 o ganghennau ac asiantaethau ledled Cymru a'r Gororau. Rydym yn parhau i fuddsoddi yn ein canghennau wrth i eraill gau eu rhai nhw.

Aelodau, cymunedau a chydweithwyr

Fel busnes wedi'i lywio gan ddiben, byddwn yn parhau i weithio'n galed i helpu ein cymunedau i fynd i'r afael â'r heriau niferus y maent yn eu hwynebu. Byddwn yn eu cefnogi i ddatblygu'r hyder a'r wybodaeth i fod yn genedl o gynilwyr.

Prif bwyslais ein hymdrechion yw addysgu pobl ifanc ledled Cymru drwy roi'r sgiliau ariannol iddynt i'w paratoi ar gyfer bywyd fel oedolion. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi darparu addysg ariannol i 11,000 o blant.

Rydym wedi buddsoddi £110,000, mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd yng ngorllewin Cymru a Chaerdydd. Mae wedi helpu miloedd o blant ysgol i ennill cyfwerth â chymhwyster TGAU mewn addysg ariannol. Yn sgil ein gwaith, rydym wedi derbyn y wobr Effaith Gwirfoddoli yng ngwobrau Busnes yn y Gymuned Cymru. Gwnaethom hefyd greu cynhyrchion cynilo megis Cyfrif Dysgu Cynilo er mwyn annog arferion cynilo ymysg teuluoedd.

Roedd hi'n wych gael ein henwi unwaith eto yn un o'r lleoedd gorau i weithio yn y DU gan Great Place to Work®. Mae ein cydweithwyr yn parhau i'n helpu i fod yn amlwg yn y diwydiant ac maent yn enwog am eu cynhesrwydd, empathi a'u hymagwedd bersonol. Yn 2019, roedd Sgôr Hyrwyddwr Net y Gymdeithas[2], sy'n mesur y tebygolrwydd y bydd cwsmeriaid a broceriaid yn argymell y Principality i bobl eraill, wedi gwella i 81.5% (2018: 78.6%).

Yn 2019, cawsom gydnabyddiaeth annibynnol am ein gwasanaeth cwsmeriaid. Cawsom ein henwi gan Which? yn ddarparwr morgeisi a argymhellir am yr ail flwyddyn yn olynol.

Rydym yn falch iawn o gael gweithio gyda dwy elusen bartner newydd, Teenage Cancer Trust Cymru ac Alzheimer's Society Cymru. Cafodd ein partneriaeth â'r ddwy elusen ragorol hyn gychwyn da. Cododd ein cydweithwyr £156,000 ar gyfer yr achosion hyn y llynedd.

Yn y llun: Y tymor i roi – mae'r Principality yn rhoi cannoedd o anrhegion i'n helusennau partner

Rhagolwg

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn disgwyl i'r amgylchedd economaidd barhau i fod yn heriol. Mae cystadleuaeth ffyrnig yn y farchnad forgeisi yn parhau i wasgu maint y llog. Serch hynny, rydym mewn sefyllfa gref i wrthsefyll dirywiad economaidd, a sicrhau ein bod yn diogelu buddiannau ein Haelodau hefyd.

Mae ein perfformiad ariannol yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi rhoi'r cyfle i ni ddatblygu sylfeini cadarn ar gyfer twf yn y dyfodol a bydd ein rhaglen fuddsoddi yn gweddnewid y dechnoleg sy'n cefnogi ein gweithrediadau craidd o ran morgeisi a chynilo. Er y bydd hyn yn effeithio ar broffidioldeb tymor byr, mae gennym y cryfder a'r cadernid i barhau i dyfu busnes y Gymdeithas mewn modd diogel. Bydd ein cynlluniau yn ein helpu i ddenu cenhedlaeth newydd o gwsmeriaid, gan ddarparu lefel o wasanaeth sy'n cyfateb â'ch disgwyliadau chi, ein Haelodau ffyddlon.

R. Michael Jones
Prif Weithredwr Dros Dro
5 Chwefror 2020

[2] Rydym yn cynnal arolygon parhaus â'n cwsmeriaid a'n broceriaid sydd wedi ymwneud yn ddiweddar â'n cydweithwyr Manwerthu, Cysylltu, Gwerthu a Reoleiddir a Gwasanaethau Cwsmeriaid. Yn 2019, daeth dros 18,000 o arolygon wedi'u cwblhau i law, lle y gwnaethom ofyn i'n cwsmeriaid a'n broceriaid roi sgôr ar raddfa o sero i ddeg o ran pa mor debygol yr oeddent o'n hargymell ni i'w ffrindiau neu eu teulu, ac o hyn rydym yn gallu creu Sgôr Hyrwyddwr Net, sy'n mesur eu bodlonrwydd a'u perthynas â'r Principality.

Cyfrifir y Sgôr Hyrwyddwr Net trwy dynnu cyfran yr ymatebwyr a ystyrir yn Ddifriwyr (y rhai sy'n rhoi sgôr o 0 i 6) o gyfran yr ymatebwyr a ystyrir yn Hyrwyddwyr (y rhai sy'n rhoi sgôr o 9 neu 10). Yn 2019, cafodd 84.8% o ymatebwyr eu hystyried yn Hyrwyddwyr, a dim ond 3.3% o ymatebwyr gafodd eu hystyried yn Ddifriwyr.

Cefnogi ein Haelodau a'n Cymunedau

Gwaith cymunedol

Rydym yn ymfalchïo fel Cymdeithas yng ngwaith ardderchog ein cydweithwyr yn y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Mae pwyslais ein gweithgarwch cymunedol yn dal i fod ar dair prif golofn sef addysg ariannol, helpu pobl i gael cartref ac aros ynddo yn hirach, ac iechyd a llesiant. Mae'r gweithgarwch hwn hefyd yn adlewyrchu ein gwerthoedd, yn enwedig 'gwneud y peth iawn' a 'darparu ag angerdd'.

Mae ein cydweithwyr wedi bod yn brysur yn codi arian ar gyfer ein dwy elusen bartner newydd, sef Teenage Cancer Trust Cymru ac Alzheimer's Society Cymru.

Dyma flwyddyn gyntaf bartneriaeth dair blynedd â'r elusennau gwych hyn ac mae'r uchafbwyntiau yn cynnwys codi £156,000 yn ystod 2019, wedi ei rannu'n gyfartal rhwng y ddwy elusen a'i helpu gan y Bond Mantais Cartref a gynhyrchodd £50,000 yn dilyn pum buddugoliaeth i Gymru ym Mhencampwriaeth Guinness y Chwe Gwlad 2019.

£156,000 wedi'i godi a'i rannu'n gyfartal rhwng Teenage Cancer Trust Cymru ac Alzheimer Society Cymru, sy'n cynnwys

£50,000 o'r Bond Mantais Cartref yn dilyn pum buddugoliaeth i Gymru ym Mhencampwriaeth Guinness y Chwe Gwlad 2019

Addysg ariannol

Rydym wedi parhau i gynyddu ein gweithgarwch addysg ariannol ledled Cymru, gyda phartneriaethau Dosbarth Busnes ag ysgolion uwchradd (trwy weithio gyda Gyrfa Cymru), gweithdai yn yr ysgolion cynradd, cefnogi Wythnos Trafod Arian, nawdd ar gyfer cymhwyster Addysg Ariannol gyda London Institute of Banking and Finance a nifer o brosiectau cydweithredol gan gynnwys digwyddiadau Her Cynilo (lle mae disgyblion TGAU yn cyflwyno syniadau am gynnyrch newydd) a chynllun treialu Ysgolion Cynilo gyda Techniquest yng ngogledd Cymru.

Ymysg yr uchafbwyntiau:

3 Ysgol Dosbarth Busnes yn Ganolfannau Addysg Ariannol ar gyfer Arian Ieuenctid	Mae 3 o'n Hysgolion Dosbarth Busnes yn Ganolfannau Rhagoriaeth Addysg Ariannol ar gyfer Arian Ieuenctid neu'n gweithio tuag at hynny.
Helpu dros **11,000** o ddisgyblion	Yn 2019 ymgysylltwyd â mwy o ddisgyblion nag erioed – fe wnaethom helpu dros 11,000 o ddisgyblion i ddysgu mwy am arian a datblygu eu sgiliau gyrfaoedd.
1,104 o ddisgyblion wedi ennill cymwysterau addysg ariannol	Rydym wedi bod yn gweithio gyda'n hysgolion partner Dosbarth Busnes ers sawl blwyddyn ac yn y cyfnod rhwng 2017 a 2019, mae 1,104 o ddisgyblion wedi ennill cymwysterau cydnabyddedig mewn Addysg Ariannol, ac mae 921 o'r rhain gyfwerth â chymhwyster TGAU (Tystysgrif Lefel 2 mewn Gallu Ariannol a Datblygu Gyrfaoedd), a 589 ar raddau A* neu A.
£110,000 o gyllid i helpu disgyblion	Rydym hefyd wedi lansio prosiectau cymhwyster Addysg Ariannol ledled Sir Gaerfyrddin a Chaerdydd – gan ddarparu £110,000 o gyllid i helpu disgyblion mewn 14 o ysgolion.
Cymerodd dros **150** ran yn ein digwyddiadau Her Cynilo	Cymerodd dros 150 o ddisgyblion o 5 ysgol ran yn ein digwyddiadau Her Cynilo – a bydd y grwpiau buddugol o bob ysgol yn cymryd rhan mewn rownd derfynol yn Stadiwm Principality ddechrau 2020. Mae hyn wedi helpu i ddod â byd gwaith a gwasanaethau ariannol ychydig yn nes at y disgyblion.

Gwirfoddoli

- Mae mwyafrif helaeth y gwirfoddoli gan ein cydweithwyr yn digwydd mewn ysgolion yn rhan o'n hymrwymiad i Addysg Ariannol. Yn 2019 fe wnaethom fuddsoddi 1,000 awr o wirfoddoli mewn ysgolion lleol a phrosiectau cymunedol.

- Rydym yn edrych ymlaen at Wythnos Trafod Arian bob blwyddyn ac unwaith eto yn 2019, fe wnaeth cydweithwyr gyfnewid eu canghennau am yr ystafell ddosbarth, gan gyflwyno gweithdai mewn ysgolion cynradd. Rhoddwyd cymorth i dros 2,000 o ddisgyblion yn ystod yr Wythnos Trafod Arian yn 2019.

- Buom hefyd yn helpu i ddatblygu mannau gwyrdd ar gyfer y gymuned, er enghraifft y Berllan yn Ysbyty Llandochau a'r ardd yng Nghanolfan Ddydd Sant Ioan yn Abertawe.

- Roeddem yn falch iawn o gael ein cydnabod yng Ngwobrau Busnesau Cyfrifol 2019 BITC Cymru â Gwobr Effaith Gwirfoddoli, Gwobrau Mortgage Finance Gazette 2019 ar gyfer cyfrifoldeb cymunedol corfforaethol, ac am yr ail flwyddyn yn olynol enwyd y Principality yn rownd derfynol Wobrau Arloesi Ariannol 2019 ar gyfer Cynhwysiant Ariannol.

Nawdd

Parhaodd nawdd ehangach y Principality i ychwanegu gwerth at iechyd a llesiant yn ein cymunedau.
Ymysg yr uchafbwyntiau:

STADIWM Principality STADIUM

Mae ein partneriaeth ag Undeb Rygbi Cymru yn parhau'n gryf, wrth i nawdd y Gymdeithas i Stadiwm Principality fod o fudd i'r economi leol a rygbi ar lawr gwlad ledled Cymru.

Bron i
1,000

Fe wnaethom roi bron i 1,000 o docynnau am ddim i ddigwyddiadau Stadiwm Principality drwy ein cystadlaethau Gwobrwyo Aelodau.

Principality YOUTH LEAGUES

Mae Cynghreiriau Ieuenctid y Principality yn helpu i godi proffil y gêm mewn cymunedau lleol.

40

40 mlynedd yn olynol o noddi'r Eisteddfod sy'n dathlu diwylliant Cymru.

25

Mwy na 25 mlynedd yn noddi Sioe Frenhinol Cymru.

Aelodau

Rydym yn ymfalchïo mewn gwrando ar ein Haelodau fel y gall cydweithwyr ddeall sut i ddiwallu eu hanghenion a bodloni eu disgwyliadau. Mae Aelodau yn dweud wrthym eu bod yn gwerthfawrogi natur gyfeillgar a pharod eu cymwynas ein cydweithwyr.

Rydym yn ymgysylltu ag Aelodau mewn nifer o ffyrdd:

- Mae uwch dîm arwain y Principality yn cynnal digwyddiadau adborth rheolaidd ym mhob rhan o Gymru a'r Gororau.
- Ceir cyfle i Aelodau bleidleisio a gofyn cwestiynau i'r Bwrdd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mae gennym Fforwm Aelodau hefyd, sy'n cynnwys Aelodau gwirfoddol sy'n gweithredu fel llais cyfunol i holl Aelodau'r Principality. Mae'r Fforwm yn cyfarfod bob tri mis i rannu eu safbwyntiau a'n helpu i wneud y penderfyniadau cywir i'n holl Aelodau. Mae'r Fforwm wedi cael mewnbwn sylweddol a gwerthfawr i strategaeth barhaus y Gymdeithas, a gall unrhyw Aelod â diddordeb wneud cais i ymuno.

Crynodeb o'r Datganiad Ariannol

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019

Mae'r Crynodeb hwn o'r Datganiad Ariannol yn grynodeb o'r wybodaeth a geir yn y Cyfrifon Blynyddol sydd wedi'u harchwilio, Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r Datganiad Busnes Blynyddol. Bydd y rhain i gyd ar gael i'r Aelodau ac adneuwyr am ddim trwy gais ym mhob swyddfa Cymdeithas Adeiladu'r Principality ac ar y rhyngrwyd yn www.principality.co.uk o 15 Ebrill 2020.

Crynodeb o Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Mae Adroddiad Cryno y Cyfarwyddwyr yn cynnwys uchafbwyntiau 2019 ar dudalen 1, adolygiad y Cadeirydd o'r flwyddyn ar dudalennau 3 i 5 ac adolygiad y Prif Weithredwr o'r flwyddyn ar dudalennau 6 i 8.

Cymeradwywyd gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 5 Chwefror 2020 a'i lofnodi ar ei ran gan:

Laurence Philip Adams
Cadeirydd

R Michael Jones
Prif Weithredwr Dros Dro

Tom Denman
Prif Swyddog Cyllid

Datganiad incwm cyfunol

	2019 £m	2018 £m
Incwm llog net	111.4	119.6
Incwm a thaliadau eraill	4.2	3.2
Treuliau gweithredu	(80.1)	(81.5)
Darpariaethau lleihad mewn gwerth	4.1	(0.6)
Elw ar gyfer y flwyddyn cyn treth	**39.6**	**40.7**
Treth	(7.6)	(7.8)
Elw ar gyfer y flwyddyn	**32.0**	**32.9**

Cysoni elw statudol ag elw sylfaenol

	2019 £m	2018 £m
Elw statudol cyn treth	39.6	40.7
Wedi'i addasu ar gyfer:		
Colledion o ddeilliadau a chyfrifyddu ar sail rhagfantoli	0.2	2.4
Taliad pensiwn ychwanegol ar gyfer cydraddoli'r Isafswm Pensiwn Gwarantedig	-	0.7
Elw sylfaenol	**39.8**	**43.8**

Diben y mesur elw sylfaenol yw adlewyrchu safbwynt y rheolwyr ynghylch perfformiad sylfaenol y grŵp, a gyflwynir i gynorthwyo'r gallu i gymharu ar draws cyfnodau adrodd trwy addasu ar gyfer eitemau sy'n effeithio ar fesurau statudol ond yr ystyrir naill ai nad ydynt yn ailadroddus neu nad oes modd eu rheoli. Mae hyn yn cyd-fynd â mesurau a ddefnyddir gan y rheolwyr i fonitro perfformiad y busnes a llywio penderfyniadau am gydnabyddiaeth amrywiol.

Crynodeb o'r fantolen gyfunol

	2019 £m	2018 £m
Asedau:		
Asedau hylifol	1,569.6	1,112.5
Benthyciadau a blaensymiau i gwsmeriaid	9,033.1	8,498.7
Asedau sefydlog ac asedau eraill	93.1	76.2
Cyfanswm yr asedau	**10,695.8**	**9,687.4**
Rhwymedigaethau:		
Cyfranddaliadau	7,588.5	6,989.8
Benthyciadau	2,378.1	2,019.4
Rhwymedigaethau eraill	84.6	60.0
Ymrwymiadau buddion ymddeol	-	3.9
Cyfalaf wedi'i danysgrifio	61.2	63.6
Cronfeydd wrth gefn	583.4	550.7
Cyfanswm yr ecwiti a'r rhwymedigaethau	**10,695.8**	**9,687.4**

Crynodeb o'r cymarebau ariannol allweddol

Ar 31 Rhagfyr:	2019 %	2018 %
Cymhareb cyfalaf Ecwiti Cyffredin Haen 1 Mae'r gymhareb hon yn cynrychioli'r berthynas rhwng y math cryfaf o gyfalaf (elw cronedig yn bennaf, sydd wedi cronni dros amser) ac asedau, wedi'i phwysoli gan lefel y risg y maent yn ei dwyn. Ei diben yw sicrhau ein bod yn gallu amsugno colledion annisgwyl.	26.20	27.06
Asedau hylifol fel canran o gyfranddaliadau a benthyciadau Mae'r gymhareb hon yn mesur ein gallu i fodloni ceisiadau i godi arian o gynilion, i roi benthyciadau morgeisi newydd i fenthycwyr ac i ariannu gweithgareddau busnes cyffredinol.	15.75	12.35
Elw ar gyfer y flwyddyn fel canran o gyfanswm cymedrig yr asedau Mae'r gymhareb hon yn mesur yr elw a wnaed yn y flwyddyn o'i gymharu â swm cyfartalog yr asedau a ddelir.	0.31	0.35
Treuliau rheoli fel canran o gyfanswm cymedrig yr asedau Treuliau rheoli yw'r gost o redeg y Gymdeithas. Mae'r gymhareb hon yn mesur pa mor effeithlon yr ydym yn gweithredu, ac mae rhif is yn nodi effeithlonrwydd uwch.	0.79	0.86
Cyfalaf gros fel canran o gyfranddaliadau a benthyciadau Mae'r gymhareb yn mesur faint o gyfalaf sydd gennym i ddiogelu ein Haelodau a chredydwyr eraill rhag digwyddiadau annisgwyl.	6.46	6.82

Datganiad yr Archwilwyr Annibynnol i Aelodau ac Adneuwyr Cymdeithas Adeiladu'r Principality

Rydym wedi archwilio'r crynodeb o'r datganiad ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019, sy'n cynnwys crynodeb y Datganiad Incwm a'r Fantolen ynghyd ag Adroddiad Cryno y Cyfarwyddwyr.

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Aelodau'r Gymdeithas fel corff yn unig, yn unol ag adran 76(5) o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986. Gwnaed ein gwaith er mwyn i ni allu hysbysu Aelodau'r Gymdeithas am y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu hysbysu amdanynt yn adroddiad yr archwilwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau llwyraf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb nac yn gyfrifol i unrhyw un arall heblaw am y Gymdeithas ac Aelodau'r Gymdeithas fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, ar gyfer ein hadroddiad archwilio, nac am y farn yr ydym wedi ei ffurfio.

Priod gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r archwilwyr

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r crynodeb o'r datganiad ariannol, yn unol â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig.

Ein cyfrifoldeb ni yw adrodd i chi ein barn ar gysondeb y crynodeb o'r datganiad ariannol â'r datganiadau ariannol llawn, y Datganiad Blynyddol o Fusnes ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr a sut y mae'n cydymffurfio â gofynion perthnasol Adran 76 o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 a'r rheoliadau a wnaed oddi tani.

Gwnaethom ein gwaith yn unol â Bwletin 2008/3 "Datganiad yr archwilydd ar y datganiadau ariannol cryno yn y Deyrnas Unedig" a ddosbarthwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol llawn y grŵp a'r Gymdeithas yn disgrifio sail ein barn archwilio ar y datganiadau ariannol hynny.

Barn

Ein barn yw bod y crynodeb o'r datganiad ariannol yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn, y Datganiad Busnes Blynyddol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer Cymdeithas Adeiladu'r Principality ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019, a'i fod yn cydymffurfio â gofynion perthnasol Adran 76 o Ddeddf Cymdeithasau Adeiladu 1986 a'r rheoliadau a wnaed oddi tani.

Deloitte LLP
Archwilydd Statudol
Caerdydd, Y Deyrnas Unedig
5 Chwefror 2020

Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2019

Parhaodd aelodau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gyson yn ystod 2019, gan gynnwys:

- Sally Jones-Evans – Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol
- Laurence Adams – Cadeirydd y Bwrdd
- Nigel Annett – Cyfarwyddwr Anweithredol
- Claire Hafner – Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae cyfran sylweddol o amser y Pwyllgor yn ystod 2019 wedi'i neilltuo i strategaeth a dull gweithredu o ran cyflogau, gan gynnwys:

- Pwyslais cryf ar yr agenda cyflogau teg i'r holl gydweithwyr, trwy gyflwyno fframwaith cyflogau a graddio newydd a chyfrwng buddion hyblyg.
- Cyflwyno cynllun tâl amrywiol a gynlluniwyd o'r newydd ar gyfer swyddogion gweithredol ac uwch arweinwyr, y Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth.
- Ailgyfochri cyflog sylfaenol ar gyfer dau Gyfarwyddwr Gweithredol, yn dilyn ymarfer meincnodi allanol trylwyr, gan gynnwys adolygu cyflog sylfaenol y Prif Weithredwr.



Cyfran yr amser a dreuliwyd gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

- Goruchwylio cydnabyddiaeth y Gymdeithas
- Strategaeth a dull cyflogau
- Canlyniadau Dyfarniad Perfformiad
- Materion gweithdrefnol
- Adrodd Rheoleiddiol

Perfformiad yn 2019

Mae perfformiad y Gymdeithas wedi bod yn gadarnhaol er gwaethaf amgylchedd allanol heriol, cystadleuol ac ansicr. Mae cynilion a benthyca newydd wedi parhau i dyfu'n llwyddiannus ac mae proffidioldeb yn dda. Gan fod cryfder a diogelwch hirdymor y Gymdeithas yn hollbwysig i'n strategaeth, mae pyrth risg cychwynnol yn cael eu pennu ar gyfer ein cynlluniau tâl amrywiol, a rhagorwyd ar y rhain yn 2019.

Mae adborth gan gwsmeriaid ac aelodau yn parhau i fod yn hynod gadarnhaol, gan arwain at Sgoriau Hyrwyddwr Net calonogol a gwobrau allanol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r cynnydd cyson o ran ein rhaglen fuddsoddi ar lwyfannau TG ein Cymdeithas, sy'n caniatáu i ni barhau i fod yn gystadleuol ac yn berthnasol yn y farchnad.

Y polisi cydnabyddiaeth

Rydym yn credu mai ein pobl yw ased gorau y Gymdeithas; rydym yn ymdrechu i fod yn gyflogwr y byddai pobl yn ei ddewis er mwyn i ni allu parhau i ddenu a chadw pobl ddawnus ac angerddol. Felly, mae'r polisi cydnabyddiaeth wedi'i gynllunio'n bwrpasol:

- Sicrhau bod y busnes yn cael ei redeg yn ddiogel ac yn llwyddiannus i'n Haelodau.
- Cefnogi cyflawniad "Pobl Ragorol", piler canolog y strategaeth fusnes gyffredinol.
- Cydnabod egwyddorion y Cod Cydnabyddiaeth a'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Nod y polisi cydnabyddiaeth yw:

- Denu, symbylu, gwobrwyo a chadw pobl o ansawdd uchel a all sicrhau bod y Principality yn parhau i ddarparu gwerth i'r Aelodau a bod yn broffidiol mewn marchnad gystadleuol ac ansicr yn aml. Gwneir hyn trwy bennu pob agwedd ar gyflogau a buddion, o ran cyfanswm a strwythur (h.y. y cydbwysedd rhwng tâl sefydlog a thâl amrywiol), yn agos i lefelau'r farchnad ar gyfer swyddi tebyg yn y sector cymdeithasau adeiladu cydfuddiannol yn y DU, yn ogystal ag yn fwy eang pan fo hyn yn briodol.
- Hyrwyddo'r ymddygiad cywir sy'n cyd-fynd â safbwynt y Gymdeithas ar risg, yn ogystal â'i diwylliant fel Cymdeithas Adeiladu gydfuddiannol sy'n eiddo i'w Haelodau.
- Annog arferion rheoli ymddygiad a risg cadarn trwy osod rhwystrau cyfalaf a hylifedd y mae'n rhaid eu goresgyn cyn gallu rhoi unrhyw ddyfarniad tâl amrywiol ac, o ran y tîm gweithredol a'r uwch dîm arwain, gohirio elfen o dâl amrywiol.
- Cymell perfformiad a rhannu llwyddiant trwy fod â chynllun tâl amrywiol cystadleuol sy'n gwobrwyo'r holl gydweithwyr am gyflawni amcanion heriol, pan fernir perfformiad ar sail o leiaf dau fesur hanfodol, gan gynnwys mesur ariannol a mesur o safbwynt cwsmeriaid.

Parhaodd y Pwyllgor i ddefnyddio PwC yn ystod y flwyddyn i gynnig cyngor annibynnol ar gydnabyddiaeth swyddogion gweithredol a gwybodaeth meincnodi. Penodir PwC hefyd i roi cyngor i'r Gymdeithas ar faterion trethiant.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn fodlon y gweithredodd y polisi cydnabyddiaeth yn unol â'i fwriad drwy gydol 2019.

Sut y cymhwysir y polisi hwn

Mae'r tabl isod yn cynnig crynodeb o'r gwahanol elfennau o gydnabyddiaeth ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol yn 2019:

Elfen	Diben
Cyflog Sylfaenol	I ddenu a chadw swyddogion gweithredol profiadol ac o safon uchel drwy dalu cyfraddau cystadleuol. Adolygir cyflogau sylfaenol yn flynyddol (neu'n fwy aml os oes angen).
Buddion	I sicrhau bod y Gymdeithas yn gweithredu fel cyflogwr cyfrifol ac i gynorthwyo wrth gyflawni'r swydd. Mae'n cynnwys lwfans car, yswiriant meddygol preifat teuluol, yswiriant salwch difrifol a sicrwydd bywyd.
Pensiwn neu lwfans pensiwn	I ddarparu cynilion tymor hirach i ariannu ymddeoliad. Cyfraniad pensiwn o 15% o'r cyflog sylfaenol neu lwfans ariannol cyfwerth.
Dyfarniad Gwobrwyo Rhagoriaeth	Wedi'i gynllunio i rannu buddion gwaith tîm, disgyblaeth ariannol a gwasanaeth cwsmeriaid â'r holl gydweithwyr. Mae'n darparu uchafswm o 12% o'r cyflog sylfaenol yn daliad dyfarniad, gyda thargedau blynyddol wedi'u seilio ar byrth risg, elw cyn treth a mesurau gwasanaeth cwsmeriaid.
Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth	Disodlwyd y Cynllun Cymhelliad Hirdymor gan y Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth o fis Ionawr 2019 ymlaen. Mae'r Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth yn ddyfarniad tâl amrywiol blynyddol gohiriedig, sydd wedi'i gynllunio i osod targedau ystyrlon yn fwy effeithiol, gan alluogi'r Gymdeithas i wobrwyo, denu a chadw ein harweinwyr yn y swyddi uchaf.
Cynllun Cymhelliad Hirdymor	Mae'r Cynllun Cymhelliad Hirdymor wedi'i ddisodli gan y Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth ar gyfer y dyfodol, ond mae trefniadau trosglwyddo yn golygu y bydd taliadau gwaddol y Cynllun Cymhelliad Hirdymor yn cael eu talu ar gyfer 2019 a 2020.

Nodyn: Nid yw'r Prif Swyddog Risg na'r Prif Archwilydd Mewnol yn cymryd rhan mewn unrhyw gynllun tâl amrywiol.



Mae pob un o'r elfennau a amlinellir uchod wedi'i llunio'n bwrpasol i gyd-fynd â'n Polisi Cydnabyddiaeth a'r nodweddion a nodir yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol o ran eglurder, symlrwydd, risg, rhagweladwyedd, cyfrannedd a chyfochredd â diwylliant. Roedd adroddiadau a gafwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2019 yn ymgorffori'r dull hwn ac yn cynnwys adolygiad blynyddol o strwythur y dyfarniad a ddarparodd dystiolaeth o sut y mae agweddau amrywiol ar y dyfarniad yn y Gymdeithas yn cyd-fynd â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Er bod y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn canolbwyntio'n bennaf ar gydnabyddiaeth swyddogion gweithredol, gan fod strwythur y dyfarniad yn y Gymdeithas wedi'i lunio'n bennaf ar gyfer y gweithlu cyfan, gallwn fod yn ffyddiog bod y nodweddion yn berthnasol i'r Gymdeithas gyfan, nid y Tîm Gweithredol yn unig.

Dyfarniadau tâl amrywiol yn 2019

Dyfarniad Gwobrwyo Rhagoriaeth (DGRh)

Bwriad y Dyfarniad Gwobrwyo Rhagoriaeth yw rhannu buddion gwaith tîm, disgyblaeth ariannol a gwasanaeth cwsmeriaid â'r holl gydweithwyr ym mhob rhan o'r Gymdeithas. Mae'r ddau fesur, sef Elw Cyn Treth a Sgôr Hyrwyddwr Net Gwasanaeth Cwsmeriaid (Maze NPS) sydd wedi'u pwysoli'n gyfartal 50% yr un pan fydd y pyrth risg cychwynnol wedi'u bodloni, i ddarparu dyfarniad uchaf o 6% yr un ar gyfer y ddau fesur, felly cyfanswm y dyfarniad yw 12% o gyflog sylfaenol unigolyn.

Yn 2019, cododd y sgôr Maze NPS yn uwch na'r targed ymestyn gan arwain at y dyfarniad uchaf o 6% ar gyfer yr elfen hon o'r Dyfarniad Gwobrwyo Rhagoriaeth. Roedd y canlyniad Elw Cyn Treth ychydig yn is na'r targed gan arwain at ddyfarniad o 2.3% ar gyfer y mesur hwn.

Dyfarnwyd gwobr o 8.3% o'u cyflog i'n cydweithwyr gweithgar i ddiolch iddynt am eu cyfraniad sylweddol at y llwyddiant hwn.

Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth (DARh)

Cyflwynwyd y Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth yn 2019 i ddisodli'r Cynllun Cymhelliad Hirdymor blaenorol. Mae'n gynllun cymhelliad blynyddol ag elfen o daliad gohiriedig i Swyddogion Gweithredol ac Uwch Arweinwyr, a'i fwriad yw gosod targedau ystyrlon yn fwy effeithiol ac felly galluogi'r Gymdeithas i wobrwyo, denu a chadw ein harweinwyr yn y swyddi uchaf.

Prif nodweddion y Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth yw:

1) Ei fod yn cydnabod ac yn gwobrwyo ein Swyddogion Gweithredol a'n Huwch Arweinwyr am eu cyfraniad at nodau hirdymor y Gymdeithas.

2) Yn amodol ar byrth cyfalaf a hylifedd, pennir lefel y dyfarniad gan berfformiad yn ôl pedwar metrig perfformiad: Ariannol (Adenillion ar Asedau), Cwsmeriaid (GFK NPS), Pobl (Great Place to Work) a Pherfformiad Personol.

3) Bydd perfformiad yn ôl y pedwar metrig hyn yn pennu ffactor canran. Ar gyfer Swyddogion Gweithredol, bydd yr amrediad o 0% hyd 38% o gyflog unigol, a bydd y dyfarniad ar darged yn 19% o'r cyflog. Ar gyfer Uwch Arweinwyr, bydd yr amrediad o 0% hyd 18% o gyflog unigol, a bydd y dyfarniad ar darged yn 9% o'r cyflog.



Ar sail canlyniadau 2019, ar gyfer y pedwar mesur sydd â phwysoliad cyfartal, y dyfarniad uchaf ar gyfer Swyddogion Gweithredol yw 18.52%, a'r dyfarniad uchaf ar gyfer Uwch Arweinwyr yw 11.02%. Mae 60% o'r dyfarniad yn daladwy ym mis Chwefror 2020, a bydd y 40% sy'n weddill yn cael ei gohirio fel a ganlyn:

Uwch Arweinwyr

2019	2020	2021	2022	2023
Blwyddyn y cynllun	60% o daliad gwobrwyo	40% o daliad gwobrwyo		
	Blwyddyn y cynllun	60% o daliad gwobrwyo	40% o daliad gwobrwyo	
		Blwyddyn y cynllun	60% o daliad gwobrwyo	40% o daliad gwobrwyo

Swyddogion Gweithredol

2019	2020	2021	2022	2023	2024
Blwyddyn y cynllun	60% o daliad gwobrwyo	20% o daliad gwobrwyo	20% o daliad gwobrwyo		
	Blwyddyn y cynllun	60% o daliad gwobrwyo	20% o daliad gwobrwyo	20% o daliad gwobrwyo	
		Blwyddyn y cynllun	60% o daliad gwobrwyo	20% o daliad gwobrwyo	20% o daliad gwobrwyo

Cynllun Cymhelliad Hirdymor (CCH)

Disodlodd y Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth y Cynllun Cymhelliad Hirdymor yn 2019 yn dilyn adolygiad llawn a gynhaliwyd gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn 2018. Cyflwynwyd y dyfarniad hwn i fynd i'r afael â rhai o heriau'r Cynllun Cymhelliad Hirdymor, gan gynnwys anhawster wrth bennu targedau ystyrlon am gyfnod o dair blynedd ymysg cymaint o ansicrwydd economaidd.

Oherwydd y cynlluniwyd y Cynllun Cymhelliad Hirdymor yn gynllun tair blynedd, bydd cyfnod trosglwyddo pan fydd dyfarniadau blaenorol y Cynllun Cymhelliad Hirdymor yn cael eu dirwyn i ben ochr yn ochr â'r Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth. Mae'r tabl dros y dudalen yn dangos sut y daeth Cynllun Cymhelliad Hirdymor 2017 i ben ar 31 Rhagfyr 2019 ac y bydd Cynllun Cymhelliad Hirdymor 2018 yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2020, gan nodi taliad olaf y cynllun hwn.

2017	2018	2019	2020	2021	2022	2023	2024
CCH 2017			Taliad yn 2020				
	CCH 2018			Taliad yn 2021			
		DARh 2019	60% o daliad yn 2020	20% i Swyddogion Gweithredol 40% i Uwch Arweinwyr	20% i Swyddogion Gweithredol		
			DARh 2020	60% o daliad yn 2021	20% i Swyddogion Gweithredol 40% i Uwch Arweinwyr	20% i Swyddogion Gweithredol	
				DARh 2021	60% o daliad yn 2022	20% i Swyddogion Gweithredol 40% i Uwch Arweinwyr	20% i Swyddogion Gweithredol

Mae'r dyfarniad a wnaed o dan Gynllun Cymhelliad Hirdymor 2017, a dalwyd ym mis Chwefror 2020, wedi'i seilio ar ganlyniadau'r targedau heriol a bennwyd gan y Bwrdd ar gyfer dau fesur allweddol: mesur ariannol a mesur cwsmeriaid. Roedd y dyfarniad o 25.66% wedi'i seilio ar y perfformiad canlynol yn ôl targedau:

Mesur	Cyfran y dyfarniad	Targedau			Canlyniad	Lefel y dyfarniad
		Trothwy	Ar darged	Ymestyn		
Adenillion ar Asedau	50%	0.327%	0.342%	0.361%	0.372%	14%
Sgôr Hyrwyddwr Net	50%	60fed ganradd	25ain ganradd uchaf	10fed ganradd uchaf	15fed ganradd uchaf	11.66%
					Cyfanswm y Dyfarniad	**25.66%**

Adroddiad blynyddol ar gydnabyddiaeth

Mae'r busnes yn cydymffurfio pan fo'n briodol â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol ac yn ceisio gwneud y polisi cydnabyddiaeth mor dryloyw, eglur a syml â phosibl. Wrth ddylunio agweddau ar gydnabyddiaeth, mae'r Pwyllgor yn ystyried priodoldeb ar gyfer sefydliad sy'n eiddo i'w Aelodau a chyfochri â'n diwylliant, tra bod y swm wedi ei bennu yn ofalus i fod yn gymesur â'r heriau ac i annog yr ymddygiad priodol ac atal risgiau gormodol rhag cael eu cymryd.

Rydym yn nodi'r wybodaeth ganlynol yn yr adran hon felly:

- Codiadau cyflog i Gyfarwyddwr Gweithredol yn 2019
- Yr hyn a enillwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol am berfformiad 2019 o'i gymharu â 2018
- Cymhareb cyflog y Prif Weithredwr
- Ffioedd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gyfer 2019

Codiadau cyflog i Gyfarwyddwr Gweithredol yn 2019

Ym mis Chwefror 2019, dyfarnodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gynnydd o 2% i gyflog sylfaenol pob Cyfarwyddwr Gweithredol, yn unol â'r dull o adolygu cyflogau blynyddol a gynhaliwyd ar gyfer gweddill y gweithlu.

Ym mis Medi 2019, cytunodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar gynnydd y tu allan i'r cylch, i gyflog sylfaenol y Prif Weithredwr ar y pryd a'r Prif Swyddog Cyllid, yn sgil ymarfer meincnodi allanol trylwyr, a gefnogwyd gan ein cynghorwyr allanol yn PwC. Mae'r cynnydd o 10% ac 11% yn y drefn honno yn cydnabod y profiad yr oedd y Prif Weithredwr ar y pryd a'r Prif Swyddog Cyllid wedi'i feithrin yn eu swyddi ac i adlewyrchu'n gywir amodau'r farchnad.

Yr hyn a enillwyd gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer perfformiad 2019

Mae'r tabl canlynol yn rhoi'r wybodaeth a archwiliwyd, sy'n dangos un ffigur cyfanswm o gydnabyddiaeth ar gyfer blwyddyn ariannol 2019 i bob un o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ac yn cymharu'r ffigur hwn â'r flwyddyn flaenorol.

Gwybodaeth wedi'i Harchwilio	Blwyddyn	Cyflog a Ffioedd[1]	Buddion[2]	Pensiynau[3]	Tâl amrywiol blynyddol[4a5]	Cyfanswm
Unigolyn		£000	£000	£000	£000	£000
Prif Weithredwr Stephen Hughes[6] (hyd at 2/12/19)	2019	305	14	46	-	365
	2018	316	15	47	116	494
Prif Weithredwr Dros Dro/Prif Swyddog Risg R Michael Jones	2019	258	13	39	amh.	310
	2018	249	13	37	amh.	299
Prif Swyddog Cyllid Tom Denman	2019	205	12	31	107	355
	2018	193	12	29	71	305
Prif Swyddog Cwsmeriaid Julie-Ann Haines	2019	229	12	34	119	394
	2018	224	12	34	83	353

1. 1 Chwefror 2019 yw'r dyddiad adolygu cyflogau. 2. Mae buddion yn cynnwys lwfans car, sicrwydd bywyd, yswiriant salwch critigol ac yswiriant meddygol preifat. 3. Mae modd derbyn lwfans arian parod o werth cyfartal (15% o'r cyflog) yn hytrach na phensiwn. 4. Tâl amrywiol yw cyfanswm y Dyfarniad Gwobrwyo Rhagoriaeth a'r Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth, ynghyd â thaliad o Gynllun Cymhelliad Hirdymor 2017 yn rhan o'r trefniadau trosglwyddo. Tair blynedd yw cyfnod perfformiad arferol y Cynllun Cymhelliad Hirdymor a gweithredodd Cynllun 2017 ar gyfer y cyfnod perfformiad 1 Ionawr 2017 i 31 Rhagfyr 2019. Mae dyfarniadau o dan y cynlluniau tâl amrywiol yn amhensiynadwy. 5. Nid yw'r Prif Swyddog Risg (a'r Prif Weithredwr Dros Dro) na'r Prif Archwilydd Mewnol yn cymryd rhan yn y cynllun tâl amrywiol. 6. Yn dilyn ymadawiad Stephen Hughes fel Cyfarwyddwr Gweithredol ar 2 Rhagfyr 2019, mae'r ffigurau yn adlewyrchu taliad hyd at ac yn cynnwys 2 Rhagfyr 2019.

Troednodiadau ychwanegol

- Yn unol â thelerau cytundeb ymadael Graeme Yorston, mae ganddo hawl i dderbyn yr elfen ohiriedig olaf o Gynllun Cymhelliad Hirdymor 2017 ar sail pro rata trwy gyfeirio at wasanaeth, gan arwain at daliad o £7,000.
- Penodwyd Iain Mansfield i'r Bwrdd ar 31 Rhagfyr 2019, felly byddwn yn dechrau datgelu ei gydnabyddiaeth o 2020.

Trefniadau ymadael Stephen Hughes

Yn dilyn ei ymddiswyddiad fel Cyfarwyddwr Gweithredol ar 2 Rhagfyr 2019, bydd Stephen Hughes ar gyfnod o absenoldeb garddio tan 20 Ebrill 2020, a bydd yn parhau i dderbyn tâl cytundebol a buddion yn yr amser hwnnw. Gan fod cydweithwyr mewn cyfnod ymddiswyddo yn anghymwys ar gyfer tâl amrywiol, nid oes unrhyw ddyfarniad tâl amrywiol ar gyfer unrhyw gynlluniau presennol na blaenorol.

Cymhareb cyflog y Prif Weithredwr

O 1 Ionawr 2019, mae'n ofynnol i sefydliadau â mwy na 250 o weithwyr ddatgelu cymhareb cyflog y Prif Weithredwr yn eu hadroddiad blynyddol, mewn ymgais i hyrwyddo tryloywder ac annog trefn lywodraethu dda. Mae cymhareb cyflog y Prif Weithredwr yn darparu cipolwg o'r bwlch cyflog cyffredinol sydd rhwng y Prif Weithredwr (yr unigolyn â'r cyflog uchaf yn y sefydliad fel arfer) a'r gweithiwr cyfartalog yn yr un sefydliad. Cyfrifir hyn trwy ddefnyddio un ffigur cyfanswm y gydnabyddiaeth sy'n cynnwys cyfanswm y cyflog, tâl amrywiol, pensiwn a buddion trethadwy.

Mae'r Gymdeithas wedi dewis cyhoeddi cymhareb cyflog y Prif Weithredwr trwy ddefnyddio'r dull a argymhellir ac a ffefrir (opsiwn A), sy'n dangos bod cyflog y Prif Weithredwr 12 gwaith yn fwy na chyflog canolrifol cydweithwyr. Mae hyn yn golygu trwy restru cyflog yr holl weithwyr o'r uchaf i'r lleiaf, y canolrif yw'r gwerth yng nghanol y rhestr honno.

Mae cyflog sylfaenol y Prif Weithredwr a chyfanswm y gydnabyddiaeth wedi'u cyfrifo i adlewyrchu'r newid Prif Weithredwr yn ystod y flwyddyn ariannol, ac mae'n cynnwys cyfran yr amser y mae Stephen Hughes ac R Michael Jones ill dau wedi'i dreulio yn y swydd yn ystod 2019. Gan na dderbyniodd y naill na'r llall ddyfarniad tâl amrywiol yn 2019, nodir cymhareb cyflog enwol wedi'i seilio ar y canlyniad disgwyliedig pe na byddai'r Prif Weithredwr wedi newid yn ystod y flwyddyn a phe talwyd y dyfarniad tâl amrywiol, er mwyn rhoi'r cyd-destun:

Blwyddyn	Dull	25ain ganradd	Canolrif	75fed ganradd
2019	Opsiwn A	17:1	12:1	9:1
2019 - Enwol	Opsiwn A	24:1	17:1	12:1

Mae ein hagenda cyflog teg yn nodi ein hymrwymiad i sicrhau bod dyfarniadau (gan gynnwys cyflog sylfaenol, tâl amrywiol a buddion) yn y Principality yn dryloyw, yn deg ac yn rhydd rhag gwahaniaethu a'u bod yn cyd-fynd â'r farchnad allanol.

Yn 2018, cynhaliwyd adolygiad manwl o drefniadau cyflogau a gradd, a chyflwynwyd canlyniad yr adolygiad hwn ym mis Ionawr 2019, gan ddarparu dull sydd wedi'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol o gynnal cysylltiad uniongyrchol rhwng sefyllfa ein cyflogau a buddion a'r cymaryddion perthnasol yn y sector gwasanaethau ariannol. Defnyddir y dull hwn yn gyson ar gyfer yr holl weithwyr ym mhob rhan o'r Gymdeithas, ni waeth eu swydd, ac fe'i heglurwyd i'r holl weithwyr cyn ei roi ar waith. Felly, rydym yn fodlon bod cymhareb cyflog y Prif Weithredwr yn gyson â pholisïau ehangach y Gymdeithas ynghylch cyflogau, dyfarniadau a chynnydd.

Ffioedd y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gyfer 2019

Telir ffi sylfaenol i Gyfarwyddwyr Anweithredol am gymryd rhan ym Mwrdd y Gymdeithas ac mae ffioedd ychwanegol yn daladwy am ddarparu gwasanaethau ar Bwyllgorau'r Bwrdd a/neu fod yn aelod o Fyrddau is-gwmnïau. Pennir y ffioedd a delir i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar lefel sy'n caniatáu i'r Gymdeithas ddenu a chadw Cyfarwyddwyr Annibynnol o'r safon angenrheidiol.

Roedd y ffioedd a dalwyd i'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol fel a ganlyn:

Cyfarwyddwyr Anweithredol	Ffioedd	
	2019 £000	2018 £000
Laurence Philip Adams	119	117
Nigel Annett CBE (Cadeirydd y Pwyllgor Technoleg)	63	62
Derek Howell (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol)	71	70
Sally Jones-Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth)	63	62
David Rigney (Cadeirydd Pwyllgor Risg y Bwrdd)	68	62
Claire Hafner[1]	53	39
Debra Evans-Williams[2]	15	-
Natalie Elphicke OBE[3]	-	31
Cyfanswm	**452**	**443**

[1] Ymunodd Claire Hafner â'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2018.
[2] Ymunodd Debra Evans-Williams â'r Bwrdd ar 3 Medi 2019.
[3] Gadawodd Natalie Elphicke y Bwrdd ar 20 Gorffennaf 2018.

Ymlaen i 2020

Cyflog Sylfaenol

Mae'r Pwyllgor yn adolygu cyflogau sylfaenol y Cyfarwyddwyr Gweithredol ar 1 Chwefror bob blwyddyn ariannol, gan ystyried ffactorau megis perfformiad unigol a chorfforaethol, asesiad o amodau'r farchnad a'r cynnydd mewn cyflogau sy'n berthnasol i gydweithwyr eraill. Ar gyfer 2020, dyfarnwyd cynnydd o 1.85% iddynt, sef yr un dull a ddefnyddiwyd ar gyfer cydweithwyr eraill.

Dyma gyflogau'r Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer 2020 yn dilyn yr adolygiad hwn:

- R Michael Jones — £304,727 (Cyflog sylfaenol yn Brif Weithredwr Dros Dro)
  £258,637 (Cyflog sylfaenol ar ôl dychwelyd i fod yn Brif Swyddog Risg)
- Julie-Ann Haines — £233,122
- Tom Denman — £224,408
- Iain Mansfield — £204,719

Buddion

Ni fu unrhyw newidiadau i'r buddion mewn nwyddau a roddwyd i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol.

Pensiwn

Mae Cyfarwyddwyr Gweithredol yn derbyn cyfraniad pensiwn o 15% o'u cyflog sylfaenol y ceir ei gymryd fel lwfans arian parod. Mae'r ddarpariaeth hon yn parhau heb ei newid ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol presennol gan ei bod yn ffurfio rhan o'r hawliadau cytundebol sydd ar waith eisoes. Bydd gan unrhyw Swyddogion Gweithredol neu Gyfarwyddwyr Gweithredol newydd a gaiff eu penodi hawl i gyfraniad pensiwn sy'n unol â hynny y mae'r gweithlu'n ei dderbyn, sef 8% o'r cyflog sylfaenol ar hyn o bryd, i gyd-fynd â bwriad y Cod Llywodraethu Corfforaethol.

Tâl Amrywiol

Bydd y Dyfarniad Gwobrwyo Rhagoriaeth a'r Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth yn parhau i fod yn weithredol o 1 Ionawr 2020. Ceir crynodeb isod:

	Dyfarniad Gwobrwyo Rhagoriaeth	Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth
Cyfnod y perfformiad	1 Ionawr 2020 tan 31 Rhagfyr 2020.	1 Ionawr 2020 tan 31 Rhagfyr 2020.
Cyfranogwyr	Pob cyflogai, ac eithrio arweinwyr swyddogaethau rheoli.	Swyddogion Gweithredol ac Uwch Arweinwyr, ac eithrio arweinwyr swyddogaethau rheoli.
Gweinyddwr	Pwyllgor Cydnabyddiaeth.	Pwyllgor Cydnabyddiaeth.
Amod porth cychwynnol	Amodau cyfalaf a hylifedd ac absenoldeb unrhyw dor-reoliadau perthnasol.	Amodau cyfalaf a hylifedd ac absenoldeb unrhyw dor-reoliadau perthnasol.
Mesurau perfformiad	Elw cyn Treth y Grŵp – 50% Sgôr Hyrwyddwr Net ar gyfer Gwasanaeth Cwsmeriaid – 50%	Adenillion ar Asedau – 25% Sgôr Hyrwyddwr Net (GFK) – 25% Ymgysylltiad Cydweithwyr – 25% Amcan Busnes Strategol Cyfrannol – 25%
Taliadau posibl	• Dim am berfformiad ar y trothwy • 6% o'r cyflog am gyflawni perfformiad targed heriol • 12% o'r cyflog am gyflawni targedau ymestynnol iawn.	**Swyddogion Gweithredol** • Dim am berfformiad ar y trothwy • 19% o'r cyflog am gyflawni perfformiad targed heriol • 38% o'r cyflog am gyflawni targedau ymestynnol iawn. **Uwch Arweinwyr** • Dim am berfformiad ar y trothwy • 9% o'r cyflog am gyflawni targedau perfformiad heriol • 18% o'r cyflog am gyflawni targedau ymestynnol iawn.

Tâl amrywiol (parhad)

	Dyfarniad Gwobrwyo Rhagoriaeth	Dyfarniad Arwain Rhagoriaeth
Dyddiad talu	Yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, caiff y taliad ei wneud ym mis Chwefror 2021. Ni fydd taliad rhannol gohiriedig.	Yn amodol ar gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth, telir 60% o'r dyfarniad i gyfranogwyr cymwys ym mis Chwefror 2021. Wedi hyn, bydd Swyddogion Gweithredol yn derbyn taliad gohiriedig o 20% ym mis Chwefror 2022 a thaliad gohiriedig terfynol o 20% ym mis Chwefror 2023. Bydd Uwch Arweinwyr yn derbyn taliad gohiriedig terfynol o 40% ym mis Chwefror 2022.
Adfachu (mynnu ad-daliad)	Caiff y Pwyllgor Cydnabyddiaeth wneud cais i adfachu dyfarniad i Swyddog Gweithredol neu Uwch Arweinydd os canfyddir na ddylai dyfarniad fod wedi ei dalu, mewn achos o gam-ddatgan perthnasol ganlyniadau blynyddol y grŵp neu os bydd tor-reoliadau difrifol.	Caiff y Pwyllgor Cydnabyddiaeth wneud cais i adfachu dyfarniad i Swyddog Gweithredol neu Uwch Arweinydd os canfyddir na ddylai dyfarniad fod wedi ei dalu, mewn achos o gam-ddatgan perthnasol ganlyniadau blynyddol y grŵp neu os bydd tor-reoliadau difrifol.

Mae gan y Pwyllgor ddisgresiwn llwyr i addasu'r dyfarniadau o dan y ddau gynllun os bydd angen, gan gynnwys atal dyfarniadau o dan drefniadau "malus" neu adennill arian a dalwyd o dan drefniadau adfachu.

Nid yw unrhyw ddyfarniadau tâl amrywiol yn y Gymdeithas yn bensiynadwy.

Contractau gwasanaeth cyfarwyddwyr

Mae gan y Prif Weithredwr gontract gwasanaeth y ceir ei derfynu gan y naill barti neu'r llall gyda blwyddyn o rybudd neu drwy dalu swm gan y Gymdeithas sy'n cyfateb i flwyddyn o gydnabyddiaeth. Mae gan y Swyddogion Gweithredol eraill gontractau gwasanaeth y ceir eu terfynu gan y Gymdeithas gyda blwyddyn o rybudd neu drwy dalu swm gan y Gymdeithas sy'n cyfateb i flwyddyn o gydnabyddiaeth, a rhybudd o chwe mis gan y Swyddog Gweithredol.

Datganiad o bleidleisio gan Aelodau

Mae'r Gymdeithas wedi ymrwymo i ddialog agored a gonest gyda'n Haelodau ac yn ymddiddori mewn canlyniadau pleidleisio. Cafodd Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr ar gyfer 2018 23,449 o bleidleisiau o'i blaid (91.35%) a 2,220 o bleidleisiau yn ei erbyn (8.65%).

Cymeradwyaeth

Cymeradwyir yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac fe'i llofnodir ar ei ran gan:

Sally Jones-Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth
5 Chwefror 2020

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Allwedd i'r Pwyllgorau: (Teip bras ar gyfer y Cadeirydd)

PA Pwyllgor Archwilio
PC Pwyllgor Cydnabyddiaeth
PLlE Pwyllgor Llywodraethu ac Enwebiadau
PRB Pwyllgor Risg y Bwrdd
PT Pwyllgor Technoleg

Laurence Philip Adams MA

Cadeirydd, Cyfarwyddwr Anweithredol

PLlE PC

Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Awst 2013, fe'i etholwyd yn Gadeirydd ym mis Ebrill 2014

Sgiliau a phrofiad

Rwy'n gyfreithiwr cymwysedig â mwy na 25 mlynedd o brofiad yn y diwydiant bancio, sy'n helpu i gynghori a llywio'r Gymdeithas drwy'r amgylchedd rheoleiddio cynyddol anodd a chymhleth y mae'n gweithredu ynddo erbyn hyn. Cyn hynny, bûm yn Gyfarwyddwr Anweithredol yn helpu i achub cwmni Northern Rock PLC a oedd mewn trafferthion yn 2007, lle'r oeddwn yn arwain y Pwyllgor Risg.

Cyfraniad at lwyddiant cynaliadwy hirdymor y Gymdeithas

Rwy'n gyfrifol am arwain gwaith y Bwrdd, trwy sicrhau bod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol wrth bennu'r strategaeth, goruchwylio perfformiad a phennu parodrwydd y Gymdeithas i dderbyn risg. Rwyf hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod cynlluniau olyniaeth cadarn ar waith, bod y Gymdeithas yn cynnal y safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol, a bod gennym ddiwylliant tryloyw ac agored.

Swyddogaethau eraill

Cyfarwyddwr Outside Insight Ltd a Chyfarwyddwr Anweithredol London Clearing House Limited, rhan o Gyfnewidfa Stoc Llundain.

Nigel Charles Annett CBE, MSc, MA [Anrh], DSc Econ

Cyfarwyddwr Anweithredol

PT PRB PLlE

Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Hydref 2013

Sgiliau a phrofiad

Roeddwn i'n gweithio yn flaenorol ym maes bancio buddsoddi, ond ar ôl deng mlynedd ymunais â Bwrdd Dŵr Cymru, fel Cyfarwyddwr Cynllunio yn wreiddiol. Roeddwn yn un o Gyfarwyddwyr sefydlol Glas Cymru, y cwmni dielw a gymerodd berchnogaeth o Dŵr Cymru yn 2001, ac yn Rheolwr Gyfarwyddwr Dŵr Cymru tan 2014. Rwy'n credu'n gryf y gall modelau busnes cydfuddiannol wneud llawer iawn o ddaioni i'r bobl a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

Cyfraniad at lwyddiant cynaliadwy hirdymor y Gymdeithas

Rwy'n gyfrifol am sicrhau goruchwyliaeth effeithiol o raglen weddnewid barhaus y Gymdeithas er mwyn i ni allu parhau i weddnewid a moderneiddio i fod o fudd i genedlaethau presennol o Aelodau a rhai y dyfodol.

Swyddogaethau eraill

Aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd ac yn Ymddiriedolwr o'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru.

Sally Jones-Evans FCIB, MBA, MSc

Cyfarwyddwr Anweithredol

PC PLLE

PA PT

Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Chwefror 2015

Sgiliau a phrofiad

Treuliais 30 mlynedd ym maes bancio manwerthu ac yswiriant cyffredinol, a ches i amrywiaeth eang o brofiad yn yr amser hynny o arwain pobl trwy gyfnodau newid, mewn meysydd sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwasanaethu cwsmeriaid yn bennaf. Rwy'n credu bod hyn yn fy helpu i gefnogi'r Tîm Arwain Gweithredol i lunio agenda newid parhaus y Gymdeithas.

Cyfraniad at lwyddiant cynaliadwy hirdymor y Gymdeithas

Rwy'n gyfrifol am sicrhau bod strategaeth, polisi a gweithdrefnau cydnabyddiaeth y Gymdeithas yn ategu'r strategaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd gan adlewyrchu'r buddiannau gorau i'r Aelodau. Mae hyn yn galluogi'r Gymdeithas i ddenu a chadw'r bobl orau i sicrhau bod y Gymdeithas yn rhedeg yn ddiogel ac yn llwyddiannus.

Swyddogaethau eraill

Rwy'n aelod o Fwrdd Hafren Dyfrdwy Ltd (is-gwmni i Severn Trent Plc) a Bwrdd Saga Services Ltd, elfen brocera yswiriant y Saga Group Plc. Rwyf hefyd yn Ymddiriedolwr Tearfund, yr elusen dyngarol a datblygu tramor, ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd yr Adran Datblygu Rhyngwladol.

David James Rigney ACMA, MBA, MA

Cyfarwyddwr Anweithredol

PRB PLLE

PA PT

Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Mawrth 2015

Sgiliau a phrofiad

Rwy'n Gyfrifydd Rheoli Siartredig ac yn ystod fy ngyrfa rwyf wedi cyflawni ystod eang o swyddi ar draws nifer o sectorau gan gynnwys Cyfarwyddwr Bwrdd gyda Chymdeithas Adeiladu Nationwide. Credaf fod y profiad hwn yn fy rhoi mewn sefyllfa dda i gyfrannu at raglen newid barhaus y Gymdeithas a chyfrannu at lwyddiant parhaus y Gymdeithas.

Cyfraniad at lwyddiant cynaliadwy hirdymor y Gymdeithas

Rwy'n gyfrifol am sicrhau bod y Gymdeithas yn mynd ati i reoli'r prif risgiau sy'n deillio o'i gweithgareddau, ynghyd â sicrhau ymwybyddiaeth o'r amgylcheddau risg presennol ac sy'n dod i'r amlwg sy'n helpu i ddiogelu'r Gymdeithas er mwyn iddi allu parhau i fod yn llwyddiannus ac yn gynaliadwy ar gyfer ei Haelodau.

Swyddogaethau eraill

Cyfarwyddwr Anweithredol LINK Scheme Holdings Limited, ac Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol Elexon Limited.

Derek Anthony Howell BSc [Anrh], FCA

Cyfarwyddwr Anweithredol

PA PRB PLlE

Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Ebrill 2014

Sgiliau a phrofiad

Mae gen i radd mewn mathemateg ac rwyf wedi cymhwyso yn Gyfrifydd Siartredig gyda Price Waterhouse – Pricewaterhouse Coopers [PwC] wedi hynny, lle'r oeddwn i'n gweithio'n wreiddiol yn yr adran archwilio a lle arbenigais mewn adfer corfforaethol a gwaith ansolfedd, a mynd yn bartner ym 1988. Ar ôl ymddeol o'r bartneriaeth, rwy'n parhau i weithredu fel ymgynghorydd i PwC, dim ond mewn cysylltiad â gwaith gweinyddu parhaus Lehman Brothers.

Cyfraniad at lwyddiant cynaliadwy hirdymor y Gymdeithas

Fel Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol, rwy'n gwrando ar syniadau'r Cadeirydd, yn gwasanaethu fel canolwr i Gyfarwyddwyr eraill, ac yn gyfrifol am arwain yr adolygiad blynyddol o berfformiad y Cadeirydd. Fel Hyrwyddwr Chwythu'r Chwiban y Bwrdd, rwyf hefyd ar gael i Aelodau os oes ganddynt bryderon nad ydynt wedi gallu eu datrys drwy sianelau arferol neu y mae cyswllt o'r fath yn amhriodol ar eu cyfer.

Rwy'n gyfrifol am helpu'r Bwrdd i gyflawni ei gyfrifoldebau goruchwylio o ran materion sy'n ymwneud ag uniondeb y datganiadau ariannol a naratif; systemau rheoli risg a rheolaeth fewnol.

Swyddogaethau eraill

Trysorydd St John Cymru Wales ac yn Ymddiriedolwr Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ac Artes Mundi.

Debra Evans-Williams

Cyfarwyddwr Anweithredol

PLlE PT

Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Medi 2019

Sgiliau a phrofiad

Yn ystod fy ngyrfa, rwyf wedi bod mewn amryw o swyddi Cyfarwyddwr Gweithredol ac Anweithredol ac wedi gweithio fel ymgynghorydd gyda chwmnïau yn y DU, Ewrop ac yn UDA. Mae fy mhrofiad blaenorol yn cynnwys pum mlynedd yng Nghymdeithas Adeiladu Britannia, yn ogystal ag uwch swyddi gyda Tesco Compare a Confused.com.

Cyfraniad at lwyddiant cynaliadwy hirdymor y Gymdeithas

Bydd fy mhrofiad ym meysydd technoleg ariannol/e-fasnach yn fy ngalluogi i gyfrannu'n gadarnhaol at weddnewidiad digidol parhaus y Gymdeithas, a fydd yn cefnogi darpariaeth barhaus o brofiad nodedig i'n Haelodau.

Swyddogaethau eraill

Cadeirydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, Cadeirydd Anweithredol Gyrfa Cymru, Cyfarwyddwr Anweithredol Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau ac Ymddiriedolwr yr Alacrity Foundation. Rwyf hefyd yn llysgennad balch i Tŷ Hafan.

Claire Hafner ACA, MA

Cyfarwyddwr Anweithredol

PA PC PLlE

Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Ebrill 2018

Sgiliau a phrofiad

Rwy'n gyfrifydd cymwysedig (ACA) ac mae gen i MA mewn Ieithoedd ac Economeg. Hyfforddais a chymhwysais gydag Ernst & Young yn adran archwilio y Gwasanaethau Ariannol ac ar ôl hynny treuliais dair blynedd arall ym maes treth gorfforaeth. Yn ystod fy ngyrfa, rwyf wedi cyflawni amrywiaeth eang o swyddogaethau mewn amryw o sectorau, gan gynnwys cyfnod o chwe blynedd yn Gyfarwyddwr Anweithredol Cymdeithas Adeiladu West Bromwich.

Cyfraniad at lwyddiant cynaliadwy hirdymor y Gymdeithas

Mae fy mhrofiad ar draws gwahanol sectorau gwasanaethau ariannol, taliadau, gwasanaethau proffesiynol, amlgyfryngau a thelegyfathrebu, yn fy ngalluogi i gyfrannu at raglen newid y Gymdeithas a llwyddiant parhaus y Gymdeithas.

Swyddogaethau eraill

Rwy'n aelod o Fforwm Cydweithwyr y Gymdeithas a fy swyddogaeth i yw sicrhau y clywir llais cydweithwyr yn uniongyrchol yn ystafell y Bwrdd, ynghyd â llais yr Aelodau.

Tom Denman BSc (Econ) [Anrh], ACA

Prif Swyddog Cyllid

Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Awst 2017

Sgiliau a phrofiad

Rwy'n Gyfrifydd Siartredig cymwysedig ac rwy'n dod â mwy nag 20 mlynedd o brofiad ym maes cyllid i fy swydd. Cyn ymuno â'r Gymdeithas, roedd gen i nifer o swyddi cyllid mewn amrywiaeth o ddiwydiannau, gan gynnwys eiddo masnachol, seilwaith a'r proffesiwn cyfreithiol, ynghyd â phum mlynedd gyda PwC yng Nghaerdydd a Sydney. Cefais fy mhenodi'n Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyllid ym mis Mawrth 2016 ac roeddwn i'n gyfrifol am yr holl gyllid, gweithrediadau'r trysorlys, caffael a gwasanaethau cyfreithiol, wedyn cefais fy mhenodi yn Brif Swyddog Cyllid ym mis Mehefin 2017.

Cyfraniad at lwyddiant cynaliadwy hirdymor y Gymdeithas

Fy swyddogaeth i yw sicrhau ein bod yn cynllunio ac yn rheoli cyfalaf, hylifedd a chyllid y Gymdeithas yn unol â buddiannau hirdymor ein Haelodau a chynaliadwyedd y Gymdeithas.

Iain Mansfield, LLB [Anrh], AYA

Prif Swyddog Gweithredu

Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Rhagfyr 2019*

Sgiliau a phrofiad

Yn wreiddiol, ymunais ag is-fusnes y Principality, Nemo Personal Finance, yn Gyfarwyddwr Cyllid ym mis Ionawr 2015. Ym mis Hydref 2017, cefais fy mhenodi'n Brif Swyddog Gweithredu y Gymdeithas, ar ben cadw cyfrifoldeb cyffredinol am Nemo. Rwy'n Gyfrifydd Siartredig cymwysedig, a chyn ymuno â'r Principality, cefais 15 mlynedd o brofiad mewn swyddi arwain uwch mewn banciau mawr, busnesau newydd a busnesau gwasanaethau ariannol manwerthu â chefnogaeth ecwiti preifat.

Cyfraniad at lwyddiant cynaliadwy hirdymor y Gymdeithas

Fy swyddogaeth i yw sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid, yn cynnal ac yn gweddnewid ein technoleg ac yn cyflawni newid mewn modd effeithiol ac effeithlon wrth gynnal cadernid gweithredu priodol i gynnal ein busnes er budd ein Haelodau a chynaliadwyedd y Gymdeithas.

*Mae'r penodiad i'r Bwrdd yn amodol ar gymeradwyaeth reoleiddiol.

Julie-Ann Haines MSc, BA [Anrh]

Prif Swyddog Cwsmeriaid
Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Mai 2016

Sgiliau a phrofiad

Rwyf wedi bod yn Gyfarwyddwr Cwsmeriaid y Gymdeithas ers 2012. Cyn ymuno â'r Principality, roedd gen i bron i 20 mlynedd o brofiad o arwain busnesau manwerthu. Roeddwn i'n uwch reolwr gwerthu, marchnata a thechnoleg i gwmnïau fel Sainsbury's a HBOS. Mae gweithio'n agos gyda chwsmeriaid wedi bod yn rhan hanfodol o fy ngwaith erioed.

Cyfraniad at lwyddiant cynaliadwy hirdymor y Gymdeithas

Fel Prif Swyddog Cwsmeriaid rwy'n gyfrifol am strategaeth, marchnata, dosbarthu ac arwain rhaglen weddnewid y Gymdeithas fel Noddwr Busnes Gweithredol. Rwyf wedi bod yn aelod o'r Bwrdd ers mis Mai 2016, ac rwy'n falch o fod y fenyw gyntaf i fod yn Gyfarwyddwr Gweithredol yn hanes y Gymdeithas. Fe wnes i sicrhau ein partneriaeth ddeng mlynedd ag Undeb Rygbi Cymru, a arweiniodd at hawliau enwi Stadiwm Principality.

Swyddogaethau eraill

Cadeirydd UK Finance Cymru ac Aelod o Fwrdd Fintech Cymru, sefydliad newydd i hyrwyddo technoleg ariannol a gwasanaethau ariannol yng Nghymru.

Robert Michael Jones BA [Anrh] MBA, ACIB

Prif Weithredwr Dros Dro
Ymunodd â'r Bwrdd ym mis Chwefror 2013

Sgiliau a phrofiad

Rwyf wedi gweithio i'r Gymdeithas ers 1997 a chefais fy mhenodi'n Bennaeth Risg y Grŵp yn 2005 a fy nyrchafu i swydd Cyfarwyddwr Risg y Grŵp (Prif Swyddog Risg erbyn hyn) yn 2009. Ym mis Rhagfyr 2019, cefais fy mhenodi yn Brif Weithredwr Dros Dro gan y Bwrdd. Rwyf wedi treulio dros 40 mlynedd yn gweithio ym maes Gwasanaethau Ariannol, gan ddechrau fy ngyrfa gyda Banc Midland ac yna HSBC gan gyflawni nifer o swyddi rheoli yn yr is-adrannau manwerthu a bancio corfforaethol. Mae gen i radd mewn Economeg ac MBA o Goleg Rheoli Henley, ac rwy'n Aelod Cyswllt o Sefydliad Siartredig y Bancwyr.

Cyfraniad at lwyddiant cynaliadwy hirdymor y Gymdeithas

Yn fy swydd yn Brif Weithredwr Dros Dro, rwy'n gyfrifol am arwain y Tîm Gweithredol i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni strategaeth y Gymdeithas er buddiannau hirdymor ein Haelodau yn ogystal â chynnal rhediad esmwyth y Gymdeithas yn ei gweithrediadau dyddiol.

Fel Prif Swyddog Risg, ynghyd â'r Prif Swyddog Cyllid, rwy'n gyfrifol am sicrhau bod y Gymdeithas yn cynnal sail gyfalaf gref a fydd yn ei galluogi i dyfu a chystadlu'n llwyddiannus yn y tymor hir. Rwy'n gyfrifol hefyd am ail linell amddiffyn y Gymdeithas i sicrhau bod trefniadau rheoli risg wedi'u hymsefydlu ar draws y Gymdeithas gyfan ac yn cyfochri â pharodrwydd y Gymdeithas i dderbyn risg, ei diben a'i hamcanion.

Hysbysiad o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Hysbysir drwy hyn y cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol rhif cant chwe deg Aelodau Cymdeithas Adeiladu'r Principality am 11.00yb ddydd Mercher 29 Ebrill 2020 yn Tŷ'r Principality, The Friary, Caerdydd, CF10 3FA at y dibenion canlynol:

1. Derbyn Adroddiad yr Archwilwyr.
2. Derbyn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.
3. Ailbenodi Deloitte LLP yn archwilwyr.
4. Ethol Cyfarwyddwyr:
   a) Ailethol Laurence Philip Adams
   b) Ailethol Nigel Charles Annett
   c) Ailethol Thomas Denman
   ch) Ethol Debra Elizabeth Evans-Williams
   d) Ailethol Claire Andree Hafner
   dd) Ailethol Julie-Ann Haines
   e) Ailethol Derek Anthony Howell
   f) Ailethol Robert Michael Jones
   ff) Ailethol Sally Jones-Evans
   g) Ethol Iain Alexander Mansfield
   ng) Ailethol David James Rigney
5. Cymeradwyo'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr fel y'i nodir yn y Cyfrifon Blynyddol.

Drwy Orchymyn y Bwrdd.

Michael Borrill
Ysgrifennydd y Grŵp
27 Chwefror 2020

Darllenwch y nodiadau gyferbyn.

Nodiadau

1. Mae'r nodiadau hyn yn rhan o'r Hysbysiad o'r Cyfarfod.
2. O dan Reolau'r Gymdeithas, caiff aelod sydd a hawl i fod yn bresennol yn y Cyfarfod a phleidleisio benodi un dirprwy i fod yn bresennol a phleidleisio ar ei ran. Cewch benodi Cadeirydd y Cyfarfod neu unrhyw un arall yn ddirprwy, ac nid oes rhaid i'ch dirprwy fod yn Aelod o'r Gymdeithas. Caiff eich dirprwy bleidleisio ar eich rhan yn y Cyfarfod, ond dim ond mewn pleidlais. Ni chaiff eich dirprwy siarad ar eich rhan yn y Cyfarfod heblaw i fynnu pleidlais neu i ymuno ag eraill i fynnu pleidlais.
3. Cewch ddweud wrth eich dirprwy sut i bleidleisio yn y Cyfarfod. Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y ffurflen pleidleisio trwy ddirprwy.
4. Y dyddiad pleidleisio yw dyddiad y Cyfarfod, 29 Ebrill 2020, os ydych yn pleidleisio eich hun a 24 Ebrill 2020 os ydych yn pleidleisio trwy ddirprwy.
5. Er mwyn bod yn bresennol a phleidleisio yn y Cyfarfod, neu benodi dirprwy, rhaid i chi fod yn gymwys naill ai fel Aelod-gyfranddaliwr neu Aelod-fenthyciwr.

Aelod-gyfranddalwyr

a. Er mwyn bod yn gymwys fel Aelod-gyfranddaliwr:
   i) mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn ar 29 Ebrill 2020 (dyddiad pleidleisio), os ydych yn unigolyn, ac
   ii) mae'n rhaid bod gennych gyfranddaliadau* gwerth dim llai na £100 yn y Gymdeithas ar 31 Rhagfyr 2019, ac
   iii) mae'n rhaid i chi beidio a bod wedi rhoi'r gorau i ddal cyfranddaliad* neu gyfranddaliadau* yn y Gymdeithas ar unrhyw adeg rhwng 31 Rhagfyr 2019 a'r dyddiad pleidleisio, ac
   iv) mae'n rhaid bod gennych gyfranddaliad* neu gyfranddaliadau* yn y Gymdeithas ar y dyddiad pleidleisio.

b. Pan fo cyfranddaliadau* yn cael eu dal ar y cyd gan ddau neu fwy o bobl, dim ond y cyntaf a enwir yng nghofnodion y Gymdeithas mewn cysylltiad â'r cyfranddaliadau hynny* fydd ag unrhyw hawl i bleidleisio.

Aelod-fenthycwyr

a. Er mwyn bod yn gymwys fel Aelod-fenthyciwr:
   i) mae'n rhaid i chi fod yn 18 oed neu'n hŷn ar 29 Ebrill 2020 (dyddiad pleidleisio), ac
   ii) mae'n rhaid bod gennych ddyled i'r Gymdeithas heb fod yn llai na £100 mewn cysylltiad â dyled morgais ar 31 Rhagfyr 2019, ac
   iii) mae'n rhaid bod gennych ddyled i'r Gymdeithas heb fod yn llai na £100 mewn cysylltiad â dyled morgais ar y dyddiad pleidleisio.

b. Pan fo dyled morgais yn ddyledus ar y cyd gan ddau neu fwy o bobl, dim ond y cyntaf a enwir yng nghofnodion y Gymdeithas mewn cysylltiad â'r morgais hwnnw fydd ag unrhyw hawl i bleidleisio.

6. Yn ogystal, **dim ond unwaith y cewch bleidleisio** fel Aelod, ni waeth:
   a. faint o gyfrifon sydd gennych a pha un a oes gennych wahanol gyfrifon mewn gwahanol rinweddau (er enghraifft, ar eich rhan eich hun ac fel ymddiriedolwr), ac
   b. a ydych yn gymwys i bleidleisio fel Aelod-gyfranddaliwr ac Aelod-fenthyciwr fel ei gilydd.
7. Gofynnir i Aelodau sy'n dod i'r Cyfarfod gyflwyno eu paslyfrau neu dystiolaeth arall o'u haelodaeth er mwyn cael mynediad. Os ydych yn penodi dirprwy, nad yw'n Gadeirydd y Cyfarfod, i ddod i'r Cyfarfod a phleidleisio ar eich rhan, sicrhewch fod eich dirprwy yn dod â phrawf adnabod priodol i'r Cyfarfod.

(Mae 'cyfranddaliad' neu 'cyfranddaliadau' yn cyfeirio at gyfrif cynilo cyfranddaliadau neu gyfrifon cynilo cyfranddaliadau gyda'r Gymdeithas.)*

Os ydych yn penodi dirprwy i bleidleisio ar eich rhan ac nad yw'ch dirprwy yn dod i'r Cyfarfod, ni chaiff eich pleidlais ei chyfrif.

Gellir cael copïau o Adroddiad y Cyfarwyddwyr, yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r Datganiad Busnes Blynyddol o unrhyw un o ganghennau'r Gymdeithas o 15 Ebrill 2020.

Bydd modd cofrestru yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o 10yb yn Tŷ'r Principality, The Friary, Caerdydd, CF10 3FA.

AR-LEIN

www.principality.co.uk
@principalityBS
Principality Building Society

GALWCH DRAW

www.principality.co.uk/branch
I ddod o hyd i'ch cangen agosaf

FFONIWCH NI

0330 333 4000•
(Ar agor Llun-Gwen 8am–8pm
Sad 9am–1pm)

Adeiladu eich dyfodol

• To help us maintain our service and security standards, telephone calls may be monitored and recorded.

Principality Building Society is authorised by the Prudential Regulation Authority and regulated by the Financial Conduct Authority and the Prudential Regulation Authority, reference number 155998. Principality Building Society, Principality Buildings, Queen Street, Cardiff, CF10 1UA.

SFS 03/20-1

Principality
Building Society
Cymdeithas Adeiladu

Lle mae cartref yn bwysig
www.principality.co.uk